




big pit national
amgueddfa coal
lofaol museum
cymru

sylfaen
gweithgareddau 1-4


national
museum
wales
amgueddfa
cymru



sylfaen 1

Nod: Dod i adnabod y gwahanol adeiladau ar y safle.

[Objective: Getting to know the site and learning the names of some buildings.]



big pit
national
coal
museum
amgueddfa
lofaol
cymru

sylfaen 1

- i) Gan ddefnyddio'r cynllun cerddwch o gwmpas y safle a nodwch ar y daflen enwau'r gwahanol adeiladau yn ôl eu rhif.
[Following the plan on previous page, walk around the site and note the names of the various buildings.]

Rhif yr adeilad	Enw'r adeilad
1	
3	
5	
6	
7	
8	
9	
10	
11	
13	
14	
16	
17	
18	

- ii) Atebwch y cwestiynau yma, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig.
[Answer these questions orally or in writing.]

1. Enwch y ddau le ble dych chi'n gallu bwyta.
2. Ble dych chi'n gallu prynu llyfrau ac anrhegion?
3. Ble dych chi'n gallu gweld llawer o goed?
4. Ble roedd y glowyr yn ymolchi?
5. O ble dych chi'n gallu gweld tref Blaenafon a'r safle i gyd?
6. Pwy oedd yn codi ac yn gostwng *[lower]* y caets?
7. Oes ystafell yma i blant ysgol? Ble?
8. O ble mae awyr *[air]* yn mynd i lawr y pwll?

sylfaen 1

Geirfa:

anrhegion	presents
safle (m.)	a site
gostwng	to lower
awyr (f.)	air

- iii) Edrychwch ar y cynllun o'r safle a dangoswch ydy'r gosodiadau sy'n dilyn yn wir (✓) ai peidio (X).
[Look at the plan and show whether the statement is true – 'gwir' (✓), or untrue – 'ddim yn wir' (X).]

Geirfa:

ar y dde	on the right
ar y chwith	on the left
uwchben	above
islaw	below
o flaen	in front of
tu ôl	behind
yng nghanol	in the middle of
rhwng	between
yn ymyl	near
wrth ochr	at the side of

Mae cylch y dramiau ar y dde.

Mae'r gweithdy cadwraeth tu ôl i'r ystafell adnoddau.

Mae tŷ'r ffan yn ymyl y siop.

Mae tŷ'r weindar yng nghanol y safle.

Mae'r storfa ffrwydron uwchben y gweithdy cadwraeth.

Mae'r ystafelloedd aros rhwng y caffi a'r ystafell addysg.

Mae'r felin lifio ar y chwith.

Mae tŷ bach wrth ochr y gweithdy cadwraeth.

Mae'r cantîn o flaen y baddondai.

Mae'r baddondai islaw efail y gof.

sylfaen 1

iv) Prawf cof [*Can you remember?*]

Heb ddefnyddio'r cynllun, ceisiwch gofio lleoliad yr adeiladau. Gellir rhannu'r dosbarth yn grwpiau i gystadlu yn erbyn ei gilydd.

[Without using the plan, try to remember the location of the various buildings. The class can be divided into groups to compete against one another.]

sylfaen 2

Nod: Dilyn sgwrs strwythuredig.

[Objective: Understanding a structured conversation.]

Y Lamp, Y Bocs Bwyd a'r Jac Dŵr

Sgwrs strwythuredig â lluniau.

[An illustrated structured presentation of three objects.]

Dylai tiwtoriaid gyflwyno'r eirfa newydd cyn cael y sgwrs.

[Tutors should introduce the new vocabulary before students listen to the presentation.]

Y Lamp

Mae rhaid cael golau i weithio, ac i ddechrau roedd glowyr yn defnyddio *canhwyllau* neu lampau â *fflam noeth*. Roedd y ddau yn *beryglus* iawn, **yn enwedig** pan oedd *nwy* yn bresennol.

Y person cyntaf i *ddyfeisio* lamp *ddiogel* oedd Syr Humphrey Davy yn 1812. Roedd y lampau yma yn llosgi paraffin ond erbyn 1913 roedden nhw'n defnyddio lampau trydan yn ein pyllau glo. **Fodd bynnag**, doedd llawer o lowyr ddim yn eu hoffi nhw achos eu bod nhw yn *drwm* ac yn *dwym iawn*. Erbyn 1950 roedd lampau helmed trydan **ar gael** a dyna beth dŷn ni'n eu defnyddio yn Big Pit heddiw. **Yn ogystal**, daeth golau trydan i waelod y pwll a lleoedd eraill.



Geirfa:

canhwyllau	candles
fflam noeth	a bare flame
peryglus	dangerous
nwy	gas
dyfeisio	to invent
diogel	safe
trwm	heavy
twym iawn	very hot

sylfaen 2

Y Bocs Bwyd

Roedd sifft y glöwr yn para wyth awr ac felly roedd rhaid iddo fe fwyta. Doedd dim cantin *dan ddaear* ac roedd rhaid iddo fe fynd â bwyd gyda fe. **Wrth gwrs**, mae pwll glo yn lle *brwnt* iawn ac mae *llygod* a *phryfed* o bob math yn byw yno hefyd. **Felly**, mae bocs bwyd yn bwysig i gadw'r bwyd yn *lân* ac yn ddiogel. Bocs tun gyda *chlawr tynn* oedd y bocs gorau i **gadw'r llwch** a'r *pryfed draw*. Yn y tun, roedd gwraig y glöwr yn rhoi bara a chaws a **brechdanau**. Ond beth am yfed? Os oedd eisiau bwyd ar y glöwr, roedd syched arno hefyd.



Geirfa:

para	to last
dan ddaear	underground
brwnt	dirty
llygod	mice
pryfed	insects
glân	clean
clawr tynn	a tight fitting lid
llwch	dust
brechdanau	sandwiches

Y Jac Dŵr

Gwaith *sychedig* iawn yw gwaith y glöwr. Mae e'n gweithio'n galed iawn am amser hir, yn aml mewn *gwres uchel*. **O ganlyniad** rhaid iddo allu *torri syched* pan fydd galw. Fel y bocs bwyd, roedd y jac dŵr yn bwysig iawn. Mae *gwydr* yn beryglus ac yn gallu torri'n hawdd. Felly, roedd y glowyr yn defnyddio jaciau tun i gario eu dŵr. **Fel arfer** roedd y jac yn dal tri pheint, digon o ddŵr am wyth awr.

Wel dyna i chi dri ffrind gorau'r glöwr – lamp i roi golau iddo fe, tun i gadw bwyd a jac i gario dŵr. Gyda'r tri yma **ar gael**, doedd dim ofn arno fe, dim eisiau bwyd arno fe a dim syched arno fe!



sylfaen 2

Geirfa:

sychedig	thirsty
gwres uchel	a high temperature
torri syched	to quench thirst
gwydr	glass
ar gael	available

ii) Parwch yr ymadroddion yma a glywsoch a'u dysgu.

[Link these useful expressions you heard and then learn them.]

yn enwedig	available
fodd bynnag	as a result
ar gael	usually
yn ogystal	to quench one's thirst
wrth gwrs	especially
o ganlyniad	in addition
torri syched	however
fel arfer	of course

sylfaen 2

iii) Clywsoch y brawddegau yma yn y sgwrs. Dych chi'n gallu eu cwblhau trwy osod y geiriau isod yn y bwlch cywir?

[You heard these sentences in the talk. Can you complete them by using the words listed below?]

1. Syr Humphrey Davy oedd y person cyntaf i _____ lamp ddiogel.
2. Roedd y lampau yma yn _____ paraffîn.
3. Doedd llawer o lowyr ddim yn hoffi'r lampau achos eu bod yn _____ .
4. Daeth golau _____ i waelod y pwll.
5. Roedd sifft y glöwr yn _____ wyth awr.
6. Doedd dim cantîn dan _____ .
7. Mae pwll glo yn lle _____ iawn.
8. Bocs tun gyda chlawr _____ oedd y bocs gorau.
9. Os oedd _____ bwyd ar y glöwr, roedd _____ arno hefyd.
10. Rhaid iddo fe _____ syched pan fydd galw.
11. Mae gwydr yn _____ ac yn gallu torri'n hawdd.
12. _____ roedd y jac yn dal tri pheint.

trydan	llosgi	fel arfer	eisiau	ddyfeisio	syched	
ddaear	dorri	drwm	beryglus	tynn	para	brwnt

iv) Ar lafar, ewch o gwmpas y grŵp gan ofyn i bob aelod ddweud un peth am y gwrthrychau gan eu cymryd fesul un.

[Ask each member of the group to say one thing about the objects, dealing with each one individually.]

v) Clywsoch chi nifer o ffurfiau lluosog enwau yn y sgwrs. Dych chi'n cofio ffurf lluosog yr enwau a ganlyn?

[In the talk, you heard a number of plural forms of nouns. Do you remember the plural of the following?]

cannwyll	lamp	pwll glo	glöwr
lle	llygoden	pryfyn	brechdan

sylfaen 3

Nod: Casglu gwybodaeth a dysgu hanes rhai o'r bobl oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant glo.

[Objective: Collecting information and learning about some of the people connected with the coal industry.]

Ewch i'r Ystafell Loceri ac atebwch y cwestiynau a ganlyn. Gweithiwch o'r chwith i'r dde gan ddechrau gydag Ann Land.

[Go to the Locker Room and find the answers to the following questions. Don't try to understand every word, just take what you need. Work from left to right beginning with Ann Land.]

1. Ble roedd Ann Land yn gweithio?
2. Pwy ddywedodd, 'Not a penny off the pay, not a second on the day'?
3. Pwy ysgrifennodd 'These Poor Hands'?
4. Faint oedd oed Isaac James Hayward yn dechrau gweithio yn Big Pit?
5. Beth oedd pobl yn arfer galw Victor Macdonald?
6. Ble cafodd Philip Weekes ei eni?
7. Faint oedd oed Plodder Dally pan orffennodd weithio yn y pwll?
8. Beth wnaeth Ralph Jones yn ystod eira mawr 1981?



sylfaen 3



9. Ym mha flwyddyn ymddeolodd Douglas Evans?
10. Pam doedd Roy Willmott ddim yn gweithio rhwng 1984-1985?
11. O ba wlad roedd Felix Srenchenko yn dod yn wreiddiol?
12. I ble symudodd Janet Thomas yn 1973?
13. Beth oedd yn gas gan Kenvin Thomas?
14. Pryd bu farw'r [died] bardd Idris Davies?
15. Beth oedd swydd Frank Gratton yn Big Pit?
16. Sut helpodd Graham Gratton (Mr Big Pit) Big Pit rhwng 1990 a 2005?
17. Faint o arian enillodd William 'Slogger' Williams yn yr wythnos torrodd e 234 tunnell o lo?
18. Faint oedd oed George Brinley Evans yn dechrau gweithio ym Mhwll Banwen?
19. Ym mha byllau glo y gweithiodd Max Boyce am 10 mlynedd?
20. Beth oedd gwaith Thiamer Fulop yn Bwdapest cyn dod i Gymru?

Os oes digon yn y grŵp, gellir ei rannu'n dimau a threfnu cystadleuaeth rhyngddynt.

sylfaen 4

Nod: Dysgu rhai ffurfiau unigol a lluosog enwau, dysgu am rai trychinebau a rhai ymadroddion.

[Objective: Learning some singular and plural forms of nouns, more about mining disasters and some sayings.]

- i) Ewch i'r adran sy'n edrych ar drychinebau yn y diwydiant glo ac atebwch y cwestiynau.

[Go to the section dealing with mining disasters and answer the questions.]



	Aberfan	Senghennydd	Tynewydd
Pryd digwyddodd y drychineb?			
Faint o bobl gafodd eu lladd?			
Beth oedd achos [cause] y ddamwain?			

sylfaen 4

Cwblhewch y 3 brawddeg isod ar gyfer Aberfan, ac wedyn lluniwch frawddegau tebyg am Senghennydd a Thynewydd wedi eu seilio ar yr un patrwm.

[Complete the 3 sentences below in relation to Aberfan and then write similar sentences about the Senghennydd and Tynewydd disasters.]


1. Digwyddodd trychineb (enw lle/*placename*) _____
yn (blwyddyn/*year*) _____ .
2. Cafodd (nifer/*number*) _____ o bobl eu lladd yn (enw lle/*placename*)
_____ .
3. _____ oedd achos y drychineb yn (enw lle/*placename*)
_____ .

- ii) Ewch i'r adran 'Arwyr neu Ddynion Drwg'. Yn yr hanes o dan ac i'r dde o eiriau Aneurin Bevan 'This is my truth. Tell me yours' mae ffurfiau lluosog yr enwau hyn i'w gweld. Beth ydyn nhw?
[Go to the 'Heroes and Villains' section. In the sections under and bottom right of Aneurin Bevan's words 'This is my truth. Tell me yours' you will find the plural forms of the nouns listed below. What are they?]



Unigol	Lluosog
pwll	
glöwr	
bachgen	
dyn	
peth	
gŵr	
swydd	

sylfaen 4



iii) Dyma rai ymadroddion Cymraeg sydd wedi dod o'r diwydiant glo. Dysgwch nhw.
[Here are some Welsh sayings connected with the mining industry. Learn them.]

Dim gobaith caneri. *[Not a hope in hell/no hope at all.]*

Mae Caerdydd yn chwarae yn erbyn Arsenal ddydd Sadwrn ond does dim gobaith caneri 'da nhw.

Cardiff are playing Arsenal on Saturday but they haven't got a hope in Hell.

[Roedden nhw'n defnyddio caneris yn y pŵll glo i brofi am nwy. Os oedd nwy yn bresennol, y caneri druan oedd y cyntaf i farw.]

[They used to use canaries to test for gas underground. If there was gas present, the canary would be the first to suffer the effects.]

Rhoi'r twls ar y bar. *[To finish work/to retire.]*

Mae'r sifft wedi gorffen ac mae'n bryd rhoi'r twls ar y bar.

Pan fydda i'n 60 oed, dw i'n bwriadu rhoi'r twls ar y bar.

When I'm 60 I intend to retire.

[Ar ôl gorffen sifft roedd glowyr yn cloi eu hoffer ar far dur i'w cadw'n ddiogel.]

[At the end of a shift, miners would lock their tools on a steel bar to keep them safe.]

Talcen caled. *[A very difficult task. Lit. a difficult coalface to work.]*

Gyda llawer o bobl heb waith a phrinder arian, mae rhedeg busnes yn y dref heddiw yn dalcen caled iawn.

With many people out of work and money scarce, running a business today is very difficult.

[Roedd ambell dalcen yn y pŵll yn anodd iawn ei drin.]

[Some coalfaces underground were very difficult to work.]